# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mercher, 13 Ebrill 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.
**Rhith-Gyfarfod: 2.00 yp - 2.05 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwr G.B. Thomas.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. COFNODION**

**3.1. 25AIN MAWRTH 2022 - 10:00YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (10:00yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

**3.2. 25AIN MAWRTH 2022 - 10:20YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (10:20yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

**3.3. 25AIN MAWRTH 2022 - 10:30YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (10:30yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

**3.4. 25AIN MAWRTH 2022 - 10:50YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (10:50yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

**3.5. 25AIN MAWRTH 2022 - 11:20YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (11:20yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

### 3.6. 25AIN MAWRTH 2022 - 11:30YB

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (11:30yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

### 3.7. 25AIN MAWRTH 2022 - 11:40YB

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (11:40yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

### 3.8. 25AIN MAWRTH 2022 - 11:50YB

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2022 (11:50yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD E.K. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.**

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant am ddim i E.K. i ysgol nad oedd yn ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl am nad oedd E.K. yn mynychu'r ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, a hynny oherwydd dewis y rhieni.**

| ________________________ | ________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |